



BBC STUDIOS
EMPLOYMENT POLICIES
(UK BASED EMPLOYEES)
.....

CONFLICT OF INTEREST

Introduction

Please note the Welsh translation of this policy can be found below.

This policy applies to all individuals engaged by BBC Studios Distribution Ltd, BBC Studios Productions Ltd and BBC Global News Ltd, including Senior Leaders, staff, freelancers (on and off-air, including those engaged via an intermediary such as a personal service company), contractors and agency staff.

High standards of objectivity, integrity, fairness and honesty must characterise BBC Studios' with the outside world.

Outside activities of an individual, influence over purchasing or commissioning decisions and the acceptance and provision of hospitality, presents and gratuities could give rise to a potential conflict of interest that could be damaging to BBC Studios' reputation.

This policy sets out requirements for individuals that are designed to maintain BBC Studios' reputation for integrity and protect individuals from accusations of partiality in commercial matters. This policy should be read in conjunction with the BBC Studios Anti-Fraud and Corruption policies, which are available on the [Code of Conduct](#) intranet site.

Conflict of Interest

Principles

The requirements are based on three principles and relate to the activities of all individuals, including Senior Leaders, staff, freelancers (on and off-air, including those engaged via an intermediary such as a personal service company), contractors and agency staff.

- Individuals will not allow their outside activities to interfere with their work at BBC Studios or allow any conflict between their duties and their private interests to affect their ability to carry out these duties effectively.
- Individuals will not make use of or exploit the BBC Studios name, or brand names associated with BBC Studios, their connection with BBC Studios or information obtained in the course of their duties to further their own private interests or those of any outside organisation, to the detriment of BBC Studios.
- Individuals will not act in a manner likely to bring BBC Studios into disrepute or to affect its reputation for integrity.

Declaration of Personal Interests

All individuals will be asked to complete a Declaration of Personal Interests in the following circumstances:

- when offered a new employment contract. This applies to both new recruits and existing employees offered a new contract (e.g. due to a change in grade or contract type);
- when taking up a significant change in role.
- on an annual basis as follows:
 - Senior Leaders and employees whose job role sits within the Journalism or Presenter CPF job families are required to complete a Declaration on an annual basis even where they have no personal interests to declare.
 - Bands A – F only need to re-declare *existing* conflicts on an annual basis if something in their business or personal circumstances has changed, or if they have any *new* potential or actual conflicts to add.

Individuals should also consider whether they should complete a new form whenever their business or personal circumstances change.

In completing the form, individuals should declare:

- any interest in which they are **directly or indirectly engaged, concerned or interested (financially or otherwise) in any other business or enterprise or work for any other employer or directorship** of any company which:
 - is wholly or partly in competition with any business carried out by BBC Studios / BBC by itself or in partnership, common ownership or as a joint venture with any third party; or
 - in respect of any goods or services acts as a supplier to or customer of BBC Studios / BBC.
- **Executive or non-executive directorships** and/or any other offices held in any other company
- any holding of **shares, debentures or other securities** held for investment purposes, where the holding is in excess of 5%. Individuals should also declare any shareholding, securities or debentures of whatever size in any media-related company.
- **business interests** that they or close members of their family have with competitors, customers or suppliers;
- **family relationships** or close personal contacts with competitors, customers or suppliers;
- **relationships with other individuals** within the BBC Group
- **Outside or private interests or activities** which could interfere with an individual's work at BBC Studios or which could give rise to any actual or potential conflict, or which could place BBC Studios in a position whereby it is likely to be brought into disrepute;
- **membership of voluntary organisations, political organisations or statutory bodies** etc. which give rise to an actual or potential conflict of interest;

If an individual is in doubt about whether their particular situation presents an actual or perceived conflict of interest, they should declare the matter on their form and then discuss with their manager.

BBC Studios reserves the right to request employees already in employment to complete and sign the form. If an individual does not return a completed form, it will be assumed that they do not have any conflicts of interest to declare.

If employees fail to follow the requirements of this policy as outlined below, the BBC Studios Employment Policy: Conduct may be applied where non-compliance with the policy has (including but not exclusively) a tendency to conceal fraud.

Personal Relationships

BBC Studios recognises individuals who work together may have or form close personal relationships. This is not prohibited, and there is no intention to unnecessarily intervene, however BBC Studios does need to ensure personal relationships do not cause actual or perceived conflicts, and staff always remain professional and respectful, in keeping with our Code of Conduct.

Individuals have a responsibility to declare any personal relationships that are likely to create an actual or perceived conflict of interest, particularly when within a chain of line management, or if one individual has any influence over decisions which affect the other. It is not always necessary to make a declaration, for example where two individuals have little or no professional contact, however if staff are unsure they should always discuss the matter with their manager to determine whether a declaration is necessary.

For further information, our Managing Personal Relationships at Work Guidance details instances of where a perceived/actual conflict may arise, and suggests some mitigations to consider if a declaration is made.

Outside Activities

Individuals have a responsibility to ensure that their outside activities neither conflict, nor could reasonably be regarded by others as being in conflict, with these principles. Individuals are asked to consider whether any interests of their family members or close personal contacts could, by association, cause embarrassment to BBC Studios. This includes situations where individuals have knowledge or involvement which could influence decisions concerning the commercial relationships between BBC Studios and other organisations in which family members or close personal contacts are employed.

In many cases, provided their manager has given specific permission in writing, individuals will be permitted to continue their interest.

If, on joining BBC Studios, individuals are in any doubt about the propriety of an outside activity in which they are already engaged, or which they are contemplating, they should seek advice from their manager. In particular individuals who join BBC Studios on a fixed-term contract or part-time contract and who already have outside business commitments, or hold public office, should seek advice.

In making a judgement about the appropriateness of an outside activity, managers will consider whether the involvement damages the individual's ability to do their job or if public knowledge of the involvement would damage the reputation of BBC Studios.

Subject to the principles set out above, individuals are free to undertake certain types of outside work in their own time, including writing material for publication and lecturing. Individuals should seek the permission of their manager, however, if they intend to use material or information gained in the course of their work at BBC Studios.

Political Involvement

All individuals are entitled to be a member of a political party or organisation. However, individuals who are involved in political activity must not use BBC Studios or its name to further their political activities, nor should they use the BBC name for this purpose. Individuals should not engage in any political activity while on duty or while on BBC Studios or BBC premises.

Holding office in a political party and active political involvement of a significant and continuing nature may not be acceptable for certain categories of individuals including:

- an individual who is known to the public;
- an individual who is in a management or editorial position.

The extent of political involvement that is acceptable may be a matter of judgement dependent on:

- the level of political involvement;
- the nature and level of the individual's job.

Any individual who is in any doubt as to whether their political involvement is acceptable should discuss the matter with their manager.

Elections

Individuals who wish to stand for nomination as a prospective candidate for:

- the UK Parliament;
- the European Parliament;
- the Scottish Parliament or Welsh Assembly;
- any Northern Ireland-wide politically elected body;
- local government representation at any level

may do so unless they are in a position whereby an actual or potential conflict of interest could arise. See Appendix 1 for more detail on Elections.

Trade Union Activities

Individuals are free to take part in activities organised by their trade union. However, individuals are covered by the guidance above when not acting in a trade union capacity.

Individuals who are elected as accredited trade union representatives may, from time to time, comment on political matters while representing the interests of their members. When expressing such views individuals should make it clear that they are expressing these views as a trade union representative and they are not reflecting the views of BBC Studios.

Purchasing and Commissioning

The overriding principle is that all dealings with current and potential suppliers are seen to be properly handled, with the application of high standards of objectivity, integrity and fairness.

BBC Studios is involved in commissioning work and in tenders for contracts with other organisations. Unless specific permission has been given by their manager, individuals must not provide information, support or assistance to any company or organisation tendering for work from BBC Studios which would in any way enhance the company's or organisation's chances of being successful in their bid.

Private Purchases, Services and Gifts

Please ensure you have read the BBC Studios Expenses Policy and understood the rules for offering and accepting external entertainment, hospitality and gifts. Any queries should be directed to your local Business and Legal Affairs representative.

Individuals should always discuss with their line manager what they are being offered and seek their approval. For those items of higher value outside of normal business meals and entertainment they should also retain evidence of approval. This could include invites to concerts, sporting events, luxury meals, gala receptions, award ceremonies, trade shows and conferences.

Individuals should not take advantage of their position in dealing with suppliers to obtain personal discounts for themselves or their families, nor should any offers from suppliers or potential suppliers to do private work for individuals be accepted, unless demonstrably on terms that would be applicable to the general public. This does not include situations where all employees have access to discounts through BBC Benefits.

Individuals and their immediate families are not permitted to accept presents from organisations or persons with whom they have, or might have, dealings on BBC Studios' behalf. Presents include goods and services, in kind or at personal preferential rates, cash gratuities and entertainment outside the scope of normal business hospitality.

Business Travel

Individuals are not permitted to take their spouse, partner or any other personal contact on a business trip at BBC Studios' expense, unless the accompaniment is a requirement of the formal duties of the visit, and this has been approved in advance and in writing by the appropriate director. In any other business circumstances, individuals who wish to be accompanied must first gain authorisation from their manager, and all expenses for the companion – including travel and accommodation – must be paid for.

Participation in Competitive Broadcasting

Individuals may be permitted to participate in the following activities, provided they observe the principles on which this policy is based:

- to be interviewed on independent radio or television news bulletins if their outside activities form a genuine part of the news;
- to appear in literary or magazine programmes broadcast on independent radio or television in connection with a book, play or other artistic work which they have undertaken outside their normal BBC Studios duties;
- to be interviewed on documentary programmes of a historical review type, broadcast on independent radio or television, featuring a relevant past experience;
- to take part as members of the public and to receive any prizes given in connection with their participation in a quiz, contest, audience-participation programme, or similar type of commercial radio or television broadcast, provided they are not well known to, or likely to be identified by, the listening or viewing audience as BBC Studios employees, and subject to their obtaining an undertaking from the broadcasting organisation concerned that no mention will be made of their connection with the BBC during such a broadcast.

Use of BBC Studios Resources

Employees are allowed, within reason, to make private telephone calls, however only local charge calls are permitted at BBC Studios' expense. Employees who are provided with a mobile phone for conducting BBC Studios business, must note and pay for personal calls (this is an Inland Revenue requirement). The mail service can be used for posting private correspondence, but postage must be paid for. Anyone engaged to work for BBC Studios may not use any BBC Studios resources, including secretarial effort, to further their private interests or do any work for an outside company. Where permitted by agreement, trade union representatives and health and safety representatives can use appropriate BBC Studios resources to carry out their responsibilities.

Use of BBC Studios Information

Individuals are required to gain permission through their manager before making use of material obtained in the course of their duties, or making reference to BBC Studios activities in any book, article, lecture, letter or statement to the Press. Commercial information should never be used in this context.

The requirement to obtain permission does not apply to individuals who write or speak as accredited representatives of recognised trade unions to publicise their union's view on a matter that is of legitimate concern to the unions, provided that they only use information about BBC Studios, or its affairs, which is in the public domain or which has been communicated to them by BBC Studios in their capacity as a union representative.

Any direct approaches from the press should be referred to the BBC Studios Press Office before any information is divulged.

Confidentiality

The confidentiality of information (including personal data on individuals, received in the course of duty) should be respected and must never be used for the personal gain of a customer, competitor or any other media agency. Those individuals with purchasing responsibilities must not disclose contractual agreements and prices, rates or special arrangements with suppliers to non-BBC Studios employees, or to BBC Studios employees who do not need to have access to such commercial information. Anyone known to have “leaked” information deliberately to the press, a competitor or another supplier will be subject to the disciplinary procedure and such action may result in dismissal. The use of information by trade union representatives is referred to in the section on the use of BBC Studios information.

Material for Broadcasting or Publishing

Individuals may not make use of their BBC Studios connection to promote any private material created outside their BBC Studios employment, which they have disposed of to another broadcaster or publisher.

Appendix 1 - Elections

Anyone who intends to seek nomination as a candidate should notify their manager at the earliest opportunity so that the implications for the individual and BBC Studios can be discussed.

An individual who is selected as a prospective candidate for a national or local election should notify their manager. The manager will notify the People Director, BBC Studios and the Head of Editorial Standards, BBC Studios. Individuals who currently hold an elected position in local government at any level must ensure that their manager is notified. The manager will notify the People Director, BBC Studios and the Head of Editorial Standards, BBC Studios.

In the discussions with the manager the immediate consideration will be the need to safeguard BBC Studios’ and the BBC’s reputation for impartiality.

An individual seeking nomination as a candidate may not be able to undertake high-level responsibilities. It may be appropriate to take immediate action to move the individual to less sensitive activities until the position of the candidacy is resolved. It will be the responsibility of the Chief Executive or their nominee to ensure an alternative substantive role is found within four weeks of the nomination being confirmed.

When an individual has been confirmed as a prospective candidate and their position would be compromised by their public association with a political party, it will be necessary to take immediate steps to ensure that the individual is not placed in a position where any

link can be made between job responsibilities and the individual's political associations. This would apply even if the date of the election has not been set.

Where it is necessary to transfer an individual to less sensitive work in the period when they are seeking nomination, or have been selected but prior to fighting the election, they must be placed in gainful employment and not sent home on paid leave.

When individuals stand for election to a European or national body, unpaid leave of up to six weeks is granted for the period prior to the election date. The leave is unpaid in order to avoid any suggestion that BBC Studios is subsidising the individual's election campaign. If elected, the individual will be required to resign from BBC Studios immediately. If not elected the individual may return to work immediately but there may have to be an appropriate gap before resuming their substantive job.

Subject to the guidance above, individuals may stand in local government elections. Individuals will be expected to conduct their campaign activity in their own time and ensure there is no conflict with their BBC Studios duties. The BBC Studios Employment Policy: Leave and BBC Leave Policy set down the provisions for individuals taking leave to carry out the responsibilities of an elected representative to local government.

If a family member or close personal contact is standing for election, it is acceptable to express personal support for the individual standing for election, but there should be no use of the BBC Studios / BBC names and where support extends to political support this should be subject to the considerations outlined above.



POLISIÄU CYFLOGAETH
BBC STUDIOS
(CYFLOGEION YN Y DU)
.....

GWRTHDARO BUDDIANNAU

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n cael ei gyflogi gan BBC Studios Distribution Ltd, BBC Studios Productions Ltd a BBC Global News Ltd, gan gynnwys Uwch Arweinwyr, staff, gweithwyr llawrydd (ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cyflogi drwy gyfryngwr fel cwmni gwasanaeth personol), contractwyr a staff asiantaeth.

Mae'n rhaid i safon uchel o wrthrychedd, didwylledd, tegwch a gonestrwydd nodweddu perthynas BBC Studios â'r byd y tu allan.

Gallai gweithgareddau allanol unigolyn, dylanwad dros benderfyniadau prynu neu gomisiynu a derbyn a darparu lletygarwch, anrhegion ac arian rhodd arwain at wrthdaro buddiannau posibl a allai fod yn niweidiol i enw da BBC Studios.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion ar unigolion sydd wedi'u cynllunio i gynnal enw da BBC Studios am onestrwydd ac i amddiffyn unigolion rhag cyhuddiadau o ddangos ffafriaeth mewn materion masnachol.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd Stiwdios y BBC, sydd ar gael ar wefan fewnrwyd y [Cod Ymddygiad](#).

Gwrthdaro Buddiannau

Egwyddorion

Mae'r gofynion yn seiliedig ar dair egwyddor ac yn ymwneud â gweithgareddau pob unigolyn, gan gynnwys Uwch Arweinwyr, staff, gweithwyr llawrydd (ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cyflogi drwy gyfryngwr fel cwmni gwasanaeth personol), contractwyr a staff asiantaeth.

- Ni fydd unigolion yn caniatáu i'w gweithgareddau allanol ymyrryd â'u gwaith yn BBC Studios nac yn caniatáu i unrhyw wrthdaro rhwng eu dyletswyddau a'u buddiannau preifat effeithio ar eu gallu i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol.
- Ni fydd unigolion yn defnyddio nac yn manteisio ar enw BBC Studios, neu enwau brand sy'n gysylltiedig â BBC Studios, eu cysylltiad â BBC Studios neu wybodaeth a gawsant wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau er mwyn ehangu eu buddiannau preifat eu hunain neu fuddiannau unrhyw un y tu allan i'r sefydliad, ar draul BBC Studios.
- Ni fydd unigolion yn gweithredu mewn modd sy'n debygol o ddwyn anfri ar BBC Studios nac yn effeithio ar ei enw da am onestrwydd.

Datgan Buddiannau Personol

Bydd gofyn i bob unigolyn lenwi Ffurflen Datgan Buddiannau Personol a'i llofnodi yn yr amgylchiadau canlynol:

- pan fyddant yn cael cynnig contract cyflogaeth newydd. Mae hyn yn berthnasol i recriwtiaid newydd a chyflogeion presennol sy'n cael cynnig contract newydd (e.e. o ganlyniad i newid yn y radd neu'r math o contract);
- wrth ymgymryd â newid sylweddol mewn rôl.
- ar sail flynyddol fel a ganlyn:
 - Mae'n ofynnol i Uwch Arweinwyr a gweithwyr y mae eu swydd yn rhan o deulu'r Fframwaith Llwybr Gyrfaoedd Newyddiaduraeth neu Gyflwynwyr lenwi Datganiad bob blwyddyn hyd yn oed pan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau personol i'w datgan.
 - Dim ond os bydd rhywbeth yn eu hamgylchiadau busnes neu bersonol wedi newid y bydd angen i Fandiau A – F ailddatgan gwrthdaro *presennol* yn flynyddol, neu os oes ganddynt unrhyw wrthdaro posibl neu wirioneddol *newydd* i'w ychwanegu.

Dylai unigolion hefyd ystyried a ddylent lenwi ffurflen newydd pryd bynnag y bydd eu hamgylchiadau busnes neu bersonol yn newid.

Wrth lenwi'r ffurflen, dylai unigolion ddatgan:

- unrhyw fuddiant y maent yn **ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag ef, neu y mae ganddynt ddiddordeb ynddo (yn ariannol neu fel arall) mewn unrhyw fusnes neu fenter arall neu waith ar ran unrhyw gyflogwr neu swydd cyfarwyddwr arall** unrhyw gwmni sydd:
 - yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn cystadleuaeth ag unrhyw fusnes a gyflawnir gan BBC Studios/BBC ar ei ran ei hun neu mewn partneriaeth, perchnogaeth gyffredin neu fel menter ar y cyd ag unrhyw drydydd parti; neu
 - yng nghyswllt unrhyw nwyddau neu wasanaethau sy'n gweithredu fel cyflenwr neu sy'n gwsmer i BBC Studios/BBC.
- **Swyddi cyfarwyddwr gweithredol neu anweithredol** a/neu unrhyw swyddi eraill mewn unrhyw gwmni arall
- unrhyw ddaliad o **gyfranddaliadau, debenturau neu warannau eraill** a ddelir at ddibenion buddsoddi, lle mae'r daliad yn fwy na 5%. Dylai unigolion hefyd ddatgan unrhyw gyfranddaliad, gwarannau neu ddebenturau o ba bynnag faint mewn unrhyw gwmni sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau.
- **buddiannau busnes** sydd ganddyn nhw neu aelodau agos o'u teulu gyda chystadleuwyr, cwsmeriaid neu gyflenwyr;
- **perthnasoedd teuluol** neu gysylltiadau personol agos â chystadleuwyr, cwsmeriaid neu gyflenwyr;
- **cysylltiadau ag unigolion eraill** o fewn grŵp y BBC

- **Buddiannau neu weithgareddau allanol neu breifat** a allai ymyrryd â gwaith unigolyn yn BBC Studios neu a allai arwain at unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosibl, neu a allai roi BBC Studios mewn sefyllfa lle mae'n debygol o gael ei ddwyn i anfri;
- **aelodaeth o sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau gwleidyddol neu gyrff statudol** ac ati sy'n arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl;

Os yw unigolyn yn ansicr a yw ei sefyllfa benodol yn achosi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig, dylai ddatgan y mater ar ei ffurflen ac yna'i drafod gyda'i reolwr.

Mae BBC Studios yn cadw'r hawl i ofyn i gyflogeion sydd eisoes mewn cyflogaeth lenwi a llofnodi'r ffurflen. Os na fydd unigolyn yn dychwelyd ffurflen wedi'i llenwi, cymerir yn ganiataol nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau ganddo i'w ddatgan.

Os bydd cyflogeion yn methu dilyn gofynion y polisi hwn fel yr amlinellir isod, gellir defnyddio Polisi BBC Studios: Ymddygiad, Gallu a Diswyddiadau neu Bolisi Disgyblu'r BBC lle mae diffyg cydymffurfio â'r polisi wedi tueddu (gan gynnwys ond nid dim ond) i gelu twyll.

Perthnasoedd Personol

Mae BBC Studios yn cydnabod ei bod yn bosibl i gydweithwyr fod mewn perthynas bersonol â'i gilydd, neu ffurfio perthynas o'r fath. Nid yw hyn wedi'i wahardd, ac nid oes bwriad ymyrryd yn ddiangen, ond mae angen i BBC Studios sicrhau nad yw perthnasoedd personol yn achosi gwrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol, a bod staff bob amser yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn barchus, yn unol â'n Cod Ymddygiad.

Mae gan unigolion gyfrifoldeb i ddatgan unrhyw berthynas bersonol sy'n debygol o greu gwrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol rhwng buddiannau, yn enwedig mewn cadwyn o reolwyr llinell, neu os oes gan un unigolyn unrhyw ddylanwad dros benderfyniadau sy'n effeithio ar y llall. Nid oes angen gwneud datganiad bob amser, er enghraifft lle nad oes gan ddau unigolyn fawr ddim cyswllt proffesiynol, neu ddim cyswllt o gwbl. Ond, os nad yw staff yn siŵr, dylent bob amser drafod y mater gyda'u rheolwr i benderfynu a oes angen datganiad.

I gael rhagor o wybodaeth, mae ein Canllawiau Rheoli Perthnasoedd Personol yn y Gwaith yn rhoi manylion am achosion lle gallai gwrthdaro ymddangosiadol/gwirioneddol godi, ac yn awgrymu rhai mesurau lliniaru i'w hystyried os gwneir datganiad.

Gweithgareddau Allanol

Mae gan unigolion gyfrifoldeb i sicrhau nad yw eu gweithgareddau allanol yn gwrthdaro, ac na fyddai'n rhesymol i eraill ystyried eu bod yn gwrthdaro, â'r egwyddorion hyn. Gofynnir i unigolion ystyried a allai buddiannau aelodau o'u teulu neu gysylltiadau personol agos, drwy gysylltiad, achosi embaras i BBC Studios. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae gan unigolion wybodaeth neu gysylltiad a allai ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â'r berthynas fasnachol rhwng BBC Studios a sefydliadau eraill lle cyflogir aelodau o'r teulu neu gysylltiadau personol agos.

Mewn llawer o achosion, ar yr amod bod eu rheolwr wedi rhoi caniatâd penodol yn ysgrifenedig, caniateir i unigolion barhau â'u buddiant.

Os oes gan unigolion, wrth ymuno â BBC Studios, unrhyw amheuaeth am briodoldeb gweithgaredd allanol y maent eisoes yn ymwneud ag ef, neu y maent yn ystyried ymwneud ag ef, dylent ofyn am gyngor gan eu rheolwr. Yn benodol, dylai unigolion sy'n ymuno â BBC Studios ar gcontract cyfnod penodol neu gytundeb rhan-amser ac sydd eisoes ag ymrwymadau busnes allanol, neu sydd â swydd gyhoeddus, ofyn am gyngor.

Wrth lunio barn am briodoldeb gweithgaredd allanol, bydd rheolwyr yn ystyried a yw'r cynnwys yn niweidio gallu'r unigolyn i wneud ei swydd neu a fyddai gwybodaeth y cyhoedd am y cysylltiad yn niweidio enw da BBC Studios.

Yn amodol ar yr egwyddorion a nodir uchod, mae gan unigolion hawl i ymgymryd â mathau penodol o waith allanol yn eu hamser eu hunain, gan gynnwys ysgrifennu deunydd i'w gyhoeddi a darlithio. Fodd bynnag, dylai unigolion ofyn am ganiatâd eu rheolwr os ydynt yn bwriadu defnyddio deunydd neu wybodaeth a gawsant yn ystod eu cyfnod yn gweithio yn BBC Studios.

Ymwneud gwleidyddol

Mae gan bob unigolyn hawl i fod yn aelod o sefydliad neu blaid wleidyddol. Fodd bynnag, ni ddylai unigolion sy'n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol ddefnyddio BBC Studios na'i enw i ehangu eu gweithgareddau gwleidyddol, ac ni ddylent ychwaith ddefnyddio enw'r BBC at y diben hwn. Ni ddylai unigolion gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd gwleidyddol tra maent ar ddyletswydd neu tra maent yn safleoedd BBC Studios neu'r BBC.

Efallai na fydd gweithio i blaid wleidyddol ac ymwneud yn weithredol â gwleidyddiaeth o natur sylweddol a pharhaus yn dderbyniol ar gyfer rhai categorïau o unigolion gan gynnwys:

- unigolyn sy'n hysbys i'r cyhoedd;
- unigolyn sydd mewn swydd reoli neu olygyddol.

Gall graddau'r ymwneud gwleidyddol sy'n dderbyniol fod yn fater o farn yn ddibynnol ar:

- lefel yr ymwneud gwleidyddol;
- natur a lefel swydd yr unigolyn.

Dylai unrhyw unigolyn sydd ag amheuaeth ynghylch a yw ei gyfranogiad gwleidyddol yn dderbyniol ai peidio drafod y mater gyda'i reolwr.

Etholiadau

Unigolion sy'n awyddus i sefyll am enwebiad fel darpar ymgeisydd ar gyfer:

- Senedd y DU;
- Senedd Ewrop;
- Senedd yr Alban neu Gynulliad Cymru;
- unrhyw gorff a gaiff ei ethol yn wleidyddol ar draws Gogledd Iwerddon;
- cynrychiolaeth llywodraeth leol ar unrhyw lefel

wneud hynny oni bai eu bod mewn sefyllfa lle y gallai gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl godi. Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion am Etholiadau.

Gweithgareddau Undebau Llafur

Mae gan unigolion hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan eu hundeb llafur. Fodd bynnag, mae'r canllawiau uchod yn cynnwys unigolion pan na fyddant yn gweithredu yn rhinwedd undeb llafur.

O bryd i'w gilydd, gall unigolion sydd wedi'u hethol yn gynrychiolwyr undeb llafur achrededig wneud sylwadau ar faterion gwleidyddol wrth gynrychioli buddiannau eu haelodau. Wrth fynegi barn o'r fath, dylai unigolion ei gwneud yn glir eu bod yn mynegi'r farn hon fel cynrychiolydd undeb llafur ac nad ydynt yn adlewyrchu barn BBC Studios.

Prynu a Chomisiynu

Y brif egwyddor yw yr ymdrinnir yn briodol â phob cysylltiad â chyflenwyr cyfredol a darpar gyflenwyr, gan ddefnyddio safonau uchel o ran gwrthrychedd, gonestrwydd a thegwch.

Mae BBC Studios yn ymwneud â chomisiynu gwaith ac â thendrau ar gyfer contractau gyda sefydliadau eraill. Oni bai eu bod wedi cael caniatâd penodol gan eu rheolwr, ni ddylai unigolion ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth na chymorth i unrhyw gwmni neu sefydliad sy'n tendro am waith gan BBC Studios a fyddai mewn unrhyw ffordd yn gwella gobeithion y cwmni neu'r sefydliad o fod yn llwyddiannus yn eu cais.

Prynu nwyddau, gwasanaethau ac anrhegion preifat

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen Polisi Treuliau BBC Studios ac wedi deall y rheolau ar gyfer cynnig a derbyn adloniant, lletygarwch ac anrhegion allanol. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at eich cynrychiolydd Busnes a Materion Cyfreithiol Lleol.

Dylai unigolion bob amser drafod yr hyn a gynigir iddynt gyda'u rheolwr llinell a gofyn am eu cymeradwyaeth. Dylai'r eitemau hynny o werth uwch y tu allan i brydau busnes ac adloniant arferol hefyd gadw tystiolaeth eu bod wedi'u cymeradwyo. Gallai hyn gynnwys gwahoddiadau i gyngherddau, digwyddiadau chwaraeon, prydau moethus, derbyniadau gala, seremonïau gwobrwyo, sioeau masnach a chynadleddau.

Wrth ddelio â chyflenwyr ni ddylai unigolion fanteisio ar eu swydd i gael gostyngiadau personol iddynt hwy eu hunain na'u teuluoedd, ac ni ddylai unrhyw gynigion gan gyflenwyr neu gyflenwyr posibl i wneud gwaith preifat i unigolion gael eu derbyn, oni bai ei bod yn amlwg bod hynny ar delerau a fyddai'n berthnasol i'r cyhoedd. Nid yw hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae gan bob cyflogai fynediad at ostyngiadau drwy BBC Benefits.

Ni chaniateir i unigolion na'u teuluoedd agos dderbyn anrhegion gan sefydliadau neu bobl y maent wedi, neu y gallent fod, yn ymwneud â nhw ar ran BBC Studios. Mae anrhegion yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau, mewn nwyddau neu am gyfraddau personol ffafriol, rhoddion ariannol ac adloniant y tu allan i gwmpas lletygarwch busnes arferol.

Teithio Busnes

Ni chaniateir i unigolion fynd â'u priod, eu partner nac unrhyw gyswllt personol arall ar daith fusnes ar gost BBC Studios, oni bai bod hynny'n un o ofynion dyletswyddau ffurfiol yr ymweliad, a bod y cyfarwyddwr priodol wedi cymeradwyo hyn ymlaen llaw ac yn

ysgrifenedig. Mewn unrhyw amgylchiadau busnes eraill, rhaid i unigolion sydd am fynd â chwmni gyda nhw gael awdurdodiad gan eu rheolwr yn gyntaf, a rhaid talu am holl dreuliau'r cydymaith – gan gynnwys costau teithio a llety.

Cymryd rhan mewn Gwasanaeth Darlledu Cystadleuol

Gellir caniatáu i unigolion gymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol, ar yr amod eu bod yn dilyn yr egwyddorion y seiliwyd y polisi hwn arnynt:

- cael eu cyfwded ar fwletinau newyddion radio neu deledu annibynnol os yw eu gweithgareddau allanol yn rhan wirioneddol o'r newyddion;
- ymddangos mewn rhaglenni llenyddol neu raglenni cylchgrawn a gaiff eu darlledu ar radio neu deledu annibynnol yng nghyswllt llyfr, drama neu waith artistig arall y maent wedi ymgymryd ag ef y tu allan i'w dyletswyddau arferol yn BBC Studios;
- eu cyfwded ar raglenni dogfen sy'n cynnwys adolygu hanesyddol, a ddarlledir ar radio neu deledu annibynnol, sy'n rhoi sylw i brofiad perthnasol yn y gorffennol;
- cymryd rhan fel aelodau o'r cyhoedd a chael unrhyw wobrau a roddir yn sgil eu cyfraniad at gwis, cystadleuaeth, rhaglen cyfranogiad cynulleidfya, neu fath tebyg o radio masnachol neu ddarllediad teledu, ar yr amod nad ydynt yn hysbys, neu'n debygol o gael eu hadnabod gan y gynulleidfya sy'n gwrandao neu'n gwyltio fel cyflogaion BBC Studios, ac ar yr amod bod y sefydliad darlledu dan sylw yn sicrhau na fydd unrhyw sôn am eu cysylltiad â'r BBC yn ystod darllediad o'r fath.

Defnyddio Adnoddau BBC Studios

Caniateir i gyflogaion, o fewn rheswm, wneud galwadau ffôn preifat, ond dim ond galwadau codi tâl lleol a ganiateir ar draul BBC Studios. Rhaid i weithwyr sy'n cael ffôn symudol i gynnal busnes BBC Studios nodi a thalu am alwadau personol (mae hyn yn un o ofynion Cyllid y Wlad). Gellir defnyddio'r gwasanaeth post i bostio gohebiaeth breifat, ond rhaid talu am stampiau. Ni all unrhyw un sy'n gweithio i BBC Studios ddefnyddio unrhyw adnoddau BBC Studios, gan gynnwys gwasanaeth ysgrifenyddol, i ehangu ei ddiddordebau preifat neu i wneud unrhyw waith ar gyfer cwmni allanol. Lle y caniateir hynny drwy gytundeb, gall cynrychiolwyr undebau llafur a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch ddefnyddio adnoddau addas BBC Studios i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Defnyddio Gwybodaeth BBC Studios

Mae'n rhaid i unigolion gael caniatâd eu rheolwr cyn defnyddio deunydd a geir wrth wneud eu dyletswyddau, neu gyfeirio at weithgareddau BBC Studios mewn unrhyw lyfr, erthygl, darlith, llythyr neu ddatganiad i'r wasg. Ni ddylid byth defnyddio gwybodaeth fasnachol yn y cyd-destun hwn.

Nid yw'r gofyniad i gael caniatâd yn berthnasol i unigolion sy'n ysgrifennu neu'n siarad fel cynrychiolwyr achrededig undebau llafur cydnabyddedig i roi cyhoeddusrwydd i farn eu

hundeb am fater sydd o bryder dilys i'r undebau, ar yr amod eu bod ond yn defnyddio gwybodaeth am BBC Studios, neu ei faterion, sydd ar gael i'r cyhoedd neu sydd wedi cael eu cyfleu iddynt gan BBC Studios yn rhinwedd eu swydd fel cynrychiolydd undeb.

Dylai unrhyw gysylltiad uniongyrchol gan y wasg gael ei gyfeirio at Swyddfa Wasg BBC Studios cyn i unrhyw wybodaeth gael ei datgelu. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r polisïau Gwrth-dwyll a Llygredd, sydd ar gael ar wefan fewnrwyd y [Cod Ymddygiad](#).

Cyfrinachedd

Dylid parchu cyfrinachedd gwybodaeth (gan gynnwys data personol am unigolion, a dderbynnir wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau) ac ni ddylid byth ei ddefnyddio er budd personol cwsmer, cystadleuydd neu unrhyw asiantaeth arall yn y cyfryngau. Ni chaniateir i'r unigolion hynny sydd â chyfrifoldebau prynu ddatgelu cytundebau a phrisiau cytundebol, trethi na threfniadau arbennig gyda chyflenwyr i gyflogeion nad ydynt yn gweithio i BBC Studios, nac i gyflogeion BBC Studios nad oes angen iddynt gael mynediad at wybodaeth fasnachol o'r fath. Bydd unrhyw un a gaiff ei ddal yn rhannu gwybodaeth gyfrinachol yn fwrriadol â'r wasg, cystadleuydd neu gyflenwr arall yn ddarostyngedig i'r weithdrefn ddisgyblu a gall camau o'r fath arwain at ddiswyddo. Cyfeirir at sut mae cynrychiolwyr undebau llafur yn defnyddio gwybodaeth yn yr adran ar ddefnyddio gwybodaeth BBC Studios.

Deunydd ar gyfer Darlledu neu Gyhoeddi

Ni chaiff unigolion ddefnyddio eu cysylltiad â BBC Studios i hyrwyddo unrhyw ddeunydd preifat a gaiff ei greu y tu allan i'w cyflogaeth yn BBC Studios, y maent wedi'i waredu i ddarlledwr neu gyhoeddwr arall.

Atodiad 1 - Etholiadau

Dylai unrhyw un sy'n bwriadu gofyn am enwebiad fel ymgeisydd roi gwybod i'w reolwr cyn gynted â phosibl fel y gellir trafod y goblygiadau ar gyfer yr unigolyn a BBC Studios.

Dylai unigolyn sy'n cael ei ddewis fel darpar ymgeisydd ar gyfer etholiad cenedlaethol neu leol roi gwybod i'w reolwr. Bydd y rheolwr yn rhoi gwybod i Gyfarwyddwr y Bobl, BBC Studios a Phennaeth Safonau Golygyddol, BBC Studios. Rhaid i unigolion sydd â swydd etholedig ar unrhyw lefel mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd sicrhau bod eu rheolwr yn cael gwybod. Bydd y rheolwr yn rhoi gwybod i Gyfarwyddwr y Bobl, BBC Studios a Phennaeth Safonau Golygyddol, BBC Studios.

Yn y trafodaethau gyda'r rheolwr, yr ystyriaeth ar unwaith fydd yr angen i ddiogelu BBC Studios ac enw da'r BBC am fod yn ddiuedd.

Mae'n bosibl na fydd unigolyn sy'n ceisio cael ei enwebu fel ymgeisydd yn gallu ymgymryd â chyfrifoldebau lefel uchel. Gallai fod yn briodol i gymryd camau ar unwaith i symud yr unigolyn i wneud gweithgareddau llai sensitif nes caiff sefyllfa'r broses ymgeisio ei datrys. Y Prif Weithredwr neu ei enwebai fydd yn gyfrifol am sicrhau y bydd yn dod o hyd i rôl sylweddol arall o fewn pedair wythnos i gadarnhau'r enwebiad.

Pan fydd unigolyn wedi'i gadarnhau fel darpar ymgeisydd ac y byddai ei safbwynt yn peryglu ei gysylltiad cyhoeddus â phlaid wleidyddol, bydd angen cymryd camau ar unwaith i sicrhau nad yw'r unigolyn yn cael ei roi mewn sefyllfa lle gellir gwneud cysylltiad rhwng cyfrifoldebau swydd a chysylltiadau gwleidyddol yr unigolyn. Byddai hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yw dyddiad yr etholiad wedi'i bennu.

Lle bydd angen trosglwyddo unigolyn i waith llai sensitif yn y cyfnod pan fydd yn ceisio cael ei enwebu, neu os yw wedi'i ddewis ond cyn iddo fod yn brwydro mewn etholiad, rhaid iddo gael ei roi mewn gwaith cyflogedig ac nid ei anfon gartref ar absenoldeb â thâl.

Pan fydd unigolion yn sefyll i gael eu hethol i gorff Ewropeaidd neu genedlaethol, caniateir gwyliau di-dâl o hyd at chwe wythnos am y cyfnod cyn dyddiad yr etholiad. Mae'r absenoldeb yn ddi-dâl er mwyn osgoi unrhyw awgrym bod BBC Studios yn talu am ymgyrch etholiadol yr unigolyn. Os caiff ei ethol, bydd yn rhaid i'r unigolyn ymddiswyddo o BBC Studios ar unwaith. Os na chaiff ei ethol, gall yr unigolyn ddychwelyd i'r gwaith ar unwaith ond efallai y bydd angen bwlch priodol cyn iddo ailddechrau ei swydd barhaol.

Yn amodol ar y canllawiau uchod, gall unigolion sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol. Bydd disgwyl i unigolion gynnal eu gweithgarwch ymgyrchu yn eu hamser eu hunain a sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro â dyletswyddau BBC Studios. Polisi Cyflogaeth BBC Studios: Mae Polisi Gwyliau a Gwyliau'r BBC yn nodi'r darpariaethau ar gyfer unigolion sy'n cymryd gwyliau i gyflawni cyfrifoldebau cynrychiolydd etholedig i lywodraeth leol.

Os yw aelod o'r teulu neu gyswllt personol agos yn sefyll yn yr etholiad, mae'n dderbyniol mynegi cefnogaeth bersonol i'r unigolyn sy'n sefyll yn yr etholiad, ond ni ddylid defnyddio enw BBC Studios/y BBC a phan fydd y cymorth yn ymestyn i gefnogaeth wleidyddol dylai hyn fod yn amodol ar yr ystyriaethau a amlinellir uchod.